OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 444

# Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 2

Diwygio is-ddeddfwriaeth

### Diwygio Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau a Chofrestru Prifathrawon (Cymru) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau 2005", rhodder—

"ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**2**)

(3) Yn rheoliad 3(1)(d), yn lle "Rheoliadau 2005", rhodder "Rheoliadau 2015".

### Diwygio Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 4 o Atodlen 2, rhodder—

"**4.**—(1) Personau sydd â'r hawlogaeth, mewn perthynas â phroffesiwn athro neu athrawes ysgol, i ymarfer yn unol â Rheoliadau 2007 neu Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015, gan gynnwys yn unol ag—

(a) penderfyniad a wneir neu hawl a gronnir o dan Reoliadau 2007 neu Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015 cyn y diwrnod ymadael yn unol â pharagraff 40 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019(**4**);

(b) penderfyniad neu ddyfarniad a wneir o dan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015 yn unol â pharagraff 44 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019; neu

(c) penderfyniad neu ddyfarniad a wneir o dan Reoliadau 2007 yn unol â pharagraff 48 o Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Yn y paragraff hwn—

(**1**) O.S. 2005/1227 (Cy. 85), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1769 (Cy. 196).
(**2**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan adran 211 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) ac Atodlen 19 iddi, O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, O.S. 2018/838.
(**3**) O.S. 2012/724 (Cy. 96), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/484 (Cy. 41).
(**4**) O.S. 2019/312

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007(**5**);

ystyr "Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd 2015" ("*the 2015 European Union Regulations*") yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**6**)."

(3) Ar ôl paragraff 4 o Atodlen 2, mewnosoder—

"**4A.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), personau nas crybwyllir yn unrhyw baragraff arall o'r Atodlen hon ac sy'n meddu ar gymwysterau neu hyfforddiant proffesiynol ffurfiol sy'n caniatáu iddynt gael mynediad i broffesiwn athro neu athrawes ysgol, neu ddilyn y proffesiwn hwnnw, mewn ysgol a gyllidir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan y llywodraeth yn y wladwriaeth y dyfarnwyd y cymhwyster ynddi neu yr ymgymerwyd â'r hyfforddiant ynddi.

(2) Nid yw'r cymwysterau neu'r hyfforddiant proffesiynol a grybwyllir yn is-baragraff (1), ym marn Gweinidogion Cymru, yn sylweddol wahanol i'r cymwysterau neu'r hyfforddiant proffesiynol penodol sy'n ofynnol i gael mynediad i broffesiwn athro neu athrawes ysgol yng Nghymru neu i ddilyn y proffesiwn hwnnw.

(3) Nid yw personau yn destun unrhyw benderfyniad gan gorff, neu achosion gerbron corff sy'n cyfyngu neu a all gyfyngu ar allu person i addysgu mewn unrhyw wladwriaeth neu sydd wedi eu gwahardd fel arall rhag cael mynediad i broffesiwn athro neu athrawes ysgol neu rhag dilyn y proffesiwn hwnnw."

### Diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015(**7**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(1), yn lle "bodloni un neu fwy o'r amodau", rhodder "bodloni'r amod a ganlyn".

(3) Yn rheoliad 7(2), hepgorer "cyntaf".

(4) Mae rheoliad 7(3) wedi ei ddirymu.

### Diwygio Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015

**5.**—(1) Mae Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015(**8**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2—

(a) hepgorer y diffiniad o "y Gyfarwyddeb";

(b) yn lle'r diffiniad o "y Rheoliadau", rhodder—

"ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015(**9**)";".

(3) Yn erthygl 3(1) hepgorer "at ddiben y Gyfarwyddeb".

(**5**) O.S. 2007/2871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/2059.
(**6**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan adran 211 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) ac Atodlen 19 iddi, O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, O.S. 2018/838.
(**7**) O.S. 2015/140 (Cy. 8).
(**8**) O.S. 2015/194 (Cy. 9).
(**9**) O.S. 2015/2059, a ddiwygiwyd gan adran 211 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) ac Atodlen 19 iddi, O.S. 2016/696, 2016/1094, 2016/1030, O.S. 2018/838.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015(**10**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 8 o Atodlen 2, rhodder—

"**8.** Person sy'n athro neu athrawes gymwysedig a ddaeth yn gymwysedig felly yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol a chan baragraff 4 neu 4A o Atodlen 2 iddynt."

(**10**) O.S. 2015/484 (Cy. 41).